Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Tŷ Coch**
**Lansdale Drive**
**Ton-teg**
**Pontypridd**
**Rhondda Cynon Taf**
**CF38 1PG**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 15/08/2017**

## Cyd-destun

Ysgol ddydd arbennig a gynhelir gan awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf yw Ysgol Tŷ Coch.  Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion 3-19 oed sydd ag anawsterau dysgu dwys a lluosog, anhwylder y sbectrwm awtistig ac anawsterau dysgu difrifol.

Ar hyn o bryd, mae 141 o ddisgyblion ar y gofrestr.  Mae gan bob un o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.  Mae tri deg chwech y cant o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.  Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol.  Saesneg yw prif iaith bron pob disgybl.

Mae'r ysgol wedi'i lleoli ar ddau safle.  Mae prif safle'r ysgol wedi'i leoli yn Nhon-teg ac mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion oedran cynradd ac uwchradd.  Ym Medi 2014, agorodd yr ysgol safle lloeren ym Muarth y Capel yn Ynys-y-bŵl.  Mae'r safle'n darparu cymorth arbenigol i ddisgyblion 14-19 oed ag anhwylder y sbectrwm awtistig.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er Medi 2015 ac mae llawer o'r uwch dîm arweinyddiaeth yn newydd i'w swydd hefyd.  Adeg yr arolygiad, cyflogir y pennaeth yn bennaeth gweithredol dros dro ysgol arbennig arall yn yr awdurdod lleol.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Rhagorol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

- Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn eu dysgu a'u datblygiad personol o'u mannau cychwyn
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cyfathrebu'n eithriadol o dda mewn perthynas â'u hanghenion a'u galluoedd
- Mae safonau lles disgyblion ar draws yr ysgol yn rhagorol
- Mae bron pob un o'r disgyblion yn foesgar a chwrtais, ac yn dangos lefelau uchel o barch tuag at bobl eraill
- Mae llais y disgybl yn hynod effeithiol ar draws yr ysgol
- Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu o ansawdd uchel sy'n cyfrannu'n dda iawn at les a datblygiad cymdeithasol disgyblion, a'u cynnydd mewn dysgu
- Mae ansawdd yr addysgu yn dda ar y cyfan
- Mae safon y gofal, y cymorth a'r arweiniad ar gyfer disgyblion yn eithriadol o dda

### Rhagolygon gwella

- Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig ar gyfer yr ysgol
- Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cyfleu disgwyliadau uchel a gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol
- Mae'r ysgol wedi rhoi dull arloesol a hynod effeithiol ar waith o ddatblygu staff sy'n nodi medrau arwain ac ymddygiadau staff
- Dros gyfnod byr, mae arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau cadarn i arfarnu perfformiad yr ysgol a chynllunio ar gyfer gwelliannau
- Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol iawn gydag ystod eang o bartneriaid ac mae'r rhain yn cyfrannu'n sylweddol at wella darpariaeth, a gwella safonau a lles yr holl ddisgyblion
- Mae'r ysgol yn rheoli ei staff a'i hadnoddau yn dda iawn

## Argymhellion

A1 Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad Cymraeg disgyblion

A2 Sicrhau bod athrawon yn darparu adborth penodol i ddisgyblion i'w helpu i wella eu gwaith

A3 Cryfhau ychydig iawn o feysydd prosesau hunanarfarnu i sicrhau ffocws digonol ar y cynnydd a wna disgyblion

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae gan ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Tŷ Coch ystod eang o anghenion addysgol arbennig, sy'n cynnwys anawsterau dysgu dwys a lluosog, anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA) ac anawsterau dysgu difrifol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn eu dysgu a'u datblygiad proffesiynol o'u mannau cychwyn. Maent yn ymateb yn dda i ddull hynod unigoledig ac ethos cefnogol yr ysgol. Dros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn eu targedau llythrennedd a rhifedd a nodwyd yn eu cynlluniau addysg unigol (CAUau). Erbyn iddynt adael yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau annibynnol, cymdeithasol a medrau bywyd defnyddiol iawn, ac fe gânt eu paratoi'n dda ar gyfer y camau nesaf yn eu bywydau.

Nid yw'n briodol cymharu safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni yn yr ysgol â chyfartaleddau cenedlaethol na dadansoddi tueddiadau dros gyfnod oherwydd ystod eang anghenion addysgol arbennig y disgyblion. Nid oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched, disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim na'r rheiny sy'n derbyn gofal gan yr awdurdodau lleol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cyfathrebu'n eithriadol o dda o ran eu hanghenion a'u galluoedd. Mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio systemau arwyddion a chyfnewid lluniau yn dda i gyfleu eu hanghenion o gwmpas yr ysgol. Mae disgyblion o bob oedran sy'n fwy abl yn siarad â hyder a balchder cynyddol am yr hyn y maent yn ei ddysgu, eu diddordebau a'u dyheadau. Mae'r disgyblion hynny ag anghenion hynod gymhleth yn defnyddio technoleg gynorthwyol fel switshis a symbolau yn hyderus i gyfleu eu hanghenion, gwneud dewisiadau a dangos eu dealltwriaeth. Mae rhai disgyblion yn defnyddio technoleg craffu llygad yn fedrus i chwarae offerynnau fel y gitâr.

Mae disgyblion ag anghenion hynod gymhleth yn gwneud cynnydd cryf o ran eu hanghenion a'u galluoedd. Maent yn deall eu harferion dyddiol ac yn ymateb yn eithriadol o dda i anogaeth a chymorth gan y staff. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod o synau ac ystumiau i gyfleu eu dewisiadau ac ymateb i gwestiynau mewn gwersi am yr hyn y maent yn ei hoffi a ddim yn ei hoffi. Maent yn mwynhau cyfleoedd i greu synau a cherddoriaeth, er enghraifft gan ddefnyddio offer cerddorol yn ystod amser cylch a chymryd rhan mewn gweithdai cerddoriaeth gyda Cherddorfa Genedlaethol Cymru.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf o ran datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar. Er enghraifft, mae disgyblion yn datblygu eu medrau creu marciau yn dda trwy ddefnyddio ystod o ddeunyddiau fel tywod, gliter ac ewyn. Dros gyfnod, mae mwyafrif o ddisgyblion yn dysgu trosysgrifo yn ddestlus gyda chymorth, ac mae lleiafrif ohonynt yn ffurfio llythrennau a brawddegau byr gyda chywirdeb cynyddol. Mae rhai disgyblion, sy'n fwy abl, yn ysgrifennu darnau diddorol o ysgrifennu estynedig, fel bywgraffiadau yn seiliedig ar eu cyd-ddisgybl.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwella eu medrau darllen yn dda o ran eu hanghenion a'u galluoedd. Mae lleiafrif o ddisgyblion hŷn yn datblygu'r hyder i ddarllen ar goedd yn y dosbarth, ac mae rhai ohonynt yn ateb cwestiynau'n dda ac yn dangos eu dealltwriaeth. Mae rhai disgyblion hŷn, sy'n fwy abl, yn ymateb yn feddylgar i gerddi ac mae ychydig iawn ohonynt yn deall ystyr yn gywir. Mae disgyblion iau yn gwrando'n astud a gyda mwynhad ar storïau sy'n cael eu darllen gan athrawon ac ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol. Mewn gwersi, lle bo'n briodol, mae rhai disgyblion na allant siarad yn dangos eu medrau darllen cynnar iawn trwy adnabod llythrennau a brawddegau gyda hyder cynyddol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau rhifedd cadarn. Mae disgyblion iau, er enghraifft, yn rhoi rhifau hyd at 20 yn eu trefn yn hyderus ac yn adnabod gwahanol siapiau 2D yn gywir i gopïo lluniau fel trên. O gael y cyfle, mae disgyblion sy'n fwy abl yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn dda mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn. Er enghraifft, mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio eu medrau arian gyda hyder cynyddol wrth brynu eu hufen iâ eu hunain ar ymweliad yr ysgol â'r traeth. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn defnyddio eu medrau rhif ac arian yn dda mewn sesiynau fel menter i gymryd archebion bwyd, archebu stoc a gwerthu ffrwythau a llysiau o erddi'r ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn ystod o bynciau. Mae disgyblion iau yn defnyddio llygoden a bysellfwrdd yn hyderus mewn gwersi i lusgo a gollwng gwybodaeth ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol. Mae llawer o ddisgyblion hŷn sy'n fwy abl yn defnyddio ystod briodol o raglenni TGCh i eirbrosesu eu gwaith, cwblhau tasgau ymchwil a chreu animeiddiadau diddorol am bobl enwog sy'n ymweld â'r ysgol. Maent yn cymhwyso eu medrau TGCh yn dda mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn, er enghraifft wrth osod rhifau adnabod personol (PIN) a chyfrineiriau ar gyfer dyfeisiau digidol. Mae disgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein.

Mae pob un o'r disgyblion 14-19 oed yn dilyn llwybr dysgu o'u dewis nhw sy'n gweddu'n dda i'w hanghenion a'u dyheadau. Mae pob disgybl yn gadael yr ysgol gydag o leiaf un cymhwyster cydnabyddedig, ac mae llawer ohonynt yn ennill ystod o gymwysterau lefel mynediad gwerthfawr mewn pynciau galwedigaethol. Mae pob disgybl yn symud ymlaen yn llwyddiannus i leoliadau priodol fel colegau arbenigol, colegau addysg bellach neu wasanaethau dydd. Mae ychydig iawn o ymadawyr yn cael gwaith yn y gymuned leol. Mae rhai disgyblion, ar draws yr ysgol, yn elwa ar fynychu ysgolion prif ffrwd lleol ar gyfer gwersi fel gwyddoniaeth.

Mae disgyblion yn y sector ôl-16 yn elwa ar leoliadau profiad gwaith gwerthfawr yn yr ysgol ac yn y gymuned leol. Mae disgyblion yn gweithio yng nghaffi a salon gwallt yr ysgol ac yn rhyngweithio'n llwyddiannus ag aelodau o'r gymuned sy'n ymweld. Pan fo'n briodol, mae disgyblion yn mynychu lleoliadau y tu allan i'r ysgol, fel y siop elusennol leol neu gwmni adeiladu arbenigol. Mae'r profiadau gwerthfawr hyn yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o fyd gwaith, eu hyder a'u medrau annibyniaeth yn eithriadol o dda.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae cynnydd disgyblion yn y Gymraeg wedi bod yn amrywiol ar draws yr ysgol. O gael y cyfle, mae disgyblion yn ymateb yn briodol i eiriau ac ymadroddion Cymraeg sylfaenol.

## Lles: Rhagorol

Mae safonau lles disgyblion ar draws yr ysgol yn rhagorol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau'r ysgol, maent yn dangos diddordeb gweithredol yn eu dysgu ac maent yn frwdfrydig mewn gwersi. Mae hyn yn gryfder nodedig yn yr ysgol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod staff yn delio'n dda ag unrhyw achosion o fwlio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o bwysigrwydd cadw'n iach, a lle bo'n briodol, gallant wneud dewisiadau iach ynglŷn â'u diet. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau corfforol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu cryfder eu corff, tyndra cyhyrol a medrau cydsymud yn dda trwy weithgareddau fel therapi adlam, nofio a hydrotherapi. Mae disgyblion yn cynrychioli Ysgol Tŷ Coch yn falch mewn ystod o ddigwyddiadau chwaraeon lleol, gan gynnwys athletau, nofio a phêl-droed.

O gwmpas yr ysgol, mae disgyblion yn foesgar a chwrtais, ac yn dangos lefelau uchel o barch at eu cyd-ddisgyblion, y staff a'u hamgylchedd. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dangos diddordeb yn lles pobl eraill. Dros gyfnod, mae'r rheiny sy'n cael anhawster yn rheoli eu hemosiynau yn datblygu dealltwriaeth well o'r emosiynau hyn ac yn dysgu ymateb yn briodol. O ganlyniad, mae safon ymddygiad y disgyblion o gwmpas yr ysgol yn uchel iawn. Nid oes unrhyw waharddiadau o'r ysgol wedi bod am y tair blynedd ddiwethaf.

Mae disgyblion yn gwybod am arferion yr ysgol yn dda iawn. O ganlyniad, maent yn symud o gwmpas yr ysgol yn hyderus, yn ymdawelu'n gyflym mewn gwersi ac yn gweithio'n ddiwyd. Dros gyfnod, a gyda chymorth staff ymroddgar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu hyder a'u medrau annibyniaeth yn dda. Mae hyn yn amrywio o ddefnyddio fframiau cerdded a chadeiriau olwyn trydan i baratoi prydau bwyd a gwneud penderfyniadau am ddewisiadau gyrfa yn y dyfodol.

Mae'r gyfradd presenoldeb am y tair blynedd ddiwethaf wedi bod dros 91%. Mae'r presenoldeb cyson uchel hwn, yn rhannol, o ganlyniad i'r ddarpariaeth therapiwtig a'r ddarpariaeth iechyd yn yr ysgol.

Mae llais y disgybl yn hynod effeithiol. Mae gan y cyngor ysgol gylch gwaith eang ac amrywiol ac mae'n ymfalchïo yn y cyfrifoldebau sydd ganddynt. Trwy'r cyngor ysgol, gall disgyblion ddylanwadu ar agweddau pwysig ar fywyd yr ysgol, gan gynnwys penodiadau staff a gwella eu hamgylchedd dysgu. Mae dealltwriaeth y cyngor ysgol o wneud penderfyniadau a democratiaeth yn datblygu'n dda trwy gyfleoedd i gyflwyno adroddiadau i'r corff llywodraethol, ac ymweliadau â lleoedd fel Palas San Steffan. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn gweithio'n agos gyda Ffrindiau Tŷ Coch hefyd i brynu offer ar gyfer y caffi, sy'n cael ei redeg gan ddisgyblion hŷn.

Lle bo'n briodol, mae disgyblion yn cymryd rhan yn frwd mewn gweithgareddau fel y clwb ar ôl yr ysgol, gweithgareddau Gwobr Dug ac eisteddfod flynyddol arbennig yr ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn cymryd rhan yn llawn ochr yn ochr â'u cyfoedion mewn gweithgareddau ac yn datblygu dealltwriaeth dda o fywyd cymunedol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Rhagorol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae Ysgol Tŷ Coch yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu o ansawdd uchel ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys ac yn bodloni anghenion a diddordebau disgyblion yn effeithiol iawn. Mae hyn yn cyfrannu at les, datblygiad personol a chynnydd disgyblion mewn dysgu yn dda iawn.

Mae'r cwricwlwm thematig ar gyfer disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen trwodd i gyfnod allweddol 3 yn gynhwysfawr ac yn elwa ar gynllunio manwl. Mae'n darparu ystod eang o weithgareddau ysgogol a difyr i bob disgybl. O ganlyniad, mae disgyblion yn dysgu a rhannu profiadau yn rheolaidd gyda'u cyfoedion o ddosbarthiadau eraill. Mae'r ysgol yn cynnig ystod o lwybrau dysgu galwedigaethol unigol a hynod bersonoledig ar gyfer disgyblion hŷn. Mae'r cwricwlwm ar draws yr ysgol yn hynod hyblyg ac ymatebol i anghenion disgyblion. Mae hyn yn gryfder arbennig yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu llawer o gyfleoedd dysgu diddorol a difyr sy'n gysylltiedig â datblygu medrau bywyd disgyblion. Mae gardd lysiau a blodau'r ysgol, caffi'r ysgol, sef 'Caffi Coch', a'r salon harddwch, yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu medrau newydd, a gweithio ochr yn ochr â disgyblion eraill. Mae gan yr ysgol gysylltiadau hynod effeithiol gyda'r gymuned ac asiantaethau allanol. Er enghraifft, mae disgyblion yn cynnal siop fwyd gydweithredol boblogaidd ar y cyd â ffermwyr a thyfwyr bwyd lleol. Mae'r profiadau hyn yn datblygu hyder, medrau cymdeithasol ac annibyniaeth disgyblion yn dda.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion. Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd adeiladol i gynllunio'r ddarpariaeth ar gyfer medrau yn glir ar draws y cwricwlwm o'r Cyfnod Sylfaen i'r ddarpariaeth ôl-16. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion mewn cyfathrebu, llythrennedd a rhifedd.

Trwy ei chwricwlwm diddorol a difyr, mae'r ysgol yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o dreftadaeth a hanes Cymru yn effeithiol. Caiff hyn ei gryfhau ymhellach trwy ymweliadau rheolaidd a gwerthfawr â lleoedd o ddiddordeb hanesyddol a diwylliannol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r ysgol yn dathlu diwylliant Cymru yn dda trwy weithgareddau cyfoethogi yn ystod Dydd Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi a thrwy eisteddfod yr ysgol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn briodol.

Mae'r ysgol wedi gwneud trefniadau cynhwysfawr iawn ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae gwaith y grŵp eco yn cael effaith fuddiol ar amgylchedd yr ysgol, er enghraifft trwy hyrwyddo ailgylchu, a lleihau defnydd yr ysgol o ynni.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon a staff cymorth yn meddu ar ddealltwriaeth dda iawn o anghenion a galluoedd disgyblion. Mae pob un o'r staff yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddarparu profiadau dysgu difyr a heriol sy'n galluogi bron pob disgybl i wneud cynnydd gwerthfawr dros gyfnod. Mae staff cymorth yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u rôl ac maent yn cefnogi a hwyluso dysgu yn hyderus ac effeithiol.

Mae gan bob un o'r staff berthnasoedd gweithio cryf gyda'r disgyblion y maent yn eu haddysgu. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ymddygiad disgyblion a'u hymgysylltiad â'u dysgu. At ei gilydd, maent yn helpu disgyblion i reoli eu hymddygiad yn fedrus ac yn creu amgylcheddau dysgu tawel ar draws yr ysgol, sy'n hyrwyddo lles a chynnydd disgyblion yn effeithiol iawn.

Mae cynllunio athrawon yn fanwl ac yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu medrau ac annibyniaeth disgyblion. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn sicrhau bod amcanion dysgu yn adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion, ac yn cysylltu'n agos â'u targedau unigol. Mae'r gwersi hyn yn cynnwys amrywiaeth addas o weithgareddau ac adnoddau sy'n gweddu'n dda i wahanol alluoedd y disgyblion. Mae athrawon yn cyflwyno gwersi strwythuredig sy'n cynnwys newid gweithgareddau'n aml i sicrhau bod disgyblion yn parhau i ymddiddori, a chael eu cymell. Fodd bynnag, ambell waith, collir cyfleoedd i hyrwyddo annibyniaeth disgyblion, ac mae rhediad y dysgu'n rhy araf.

Mae'r ysgol wedi datblygu ystod addas o strategaethau buddiol i gynnwys disgyblion mewn asesu'r cynnydd y maent wedi'i wneud. Maent yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion adolygu eu dysgu, a myfyrio ar eu cynnydd. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio holi yn sensitif i herio a datblygu dealltwriaeth disgyblion. Mae pob un o'r staff yn darparu adborth calonogol mewn gwersi gan ddefnyddio ffyrdd o gyfathrebu sy'n cael eu ffafrio gan ddisgyblion. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw'r adborth yn ddigon manwl gywir i alluogi disgyblion i wella'u gwaith.

Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd a lles pob disgybl yn effeithiol iawn. Mae ganddi systemau sefydledig i asesu mannau cychwyn disgyblion, gosod targedau ac olrhain cynnydd disgyblion dros gyfnod. Mae pob un o'r staff yn cyfrannu at asesu cynnydd disgyblion yn barhaus yn erbyn eu targedau. Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i lywio cynllunio a gwella darpariaeth.

Mae trefniadau cadarn ar gyfer safoni gwaith disgyblion yn fewnol ac yn allanol. Maent yn cynorthwyo gallu athrawon i asesu safonau gwaith disgyblion yn gywir. Caiff rhieni a gofalwyr wybodaeth werthfawr am gynnydd a lles eu plentyn trwy adroddiadau diwedd blwyddyn, adolygiadau blynyddol a nosweithiau gwybodaeth i rieni.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

At ei gilydd, mae ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad a ddarperir yn Nhŷ Coch yn eithriadol o dda.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n dda iawn ar gyfer anghenion iechyd, emosiynol a dysgu disgyblion, ac mae'n ymateb yn hyblyg iddynt. Mae ganddi weithdrefnau ac arferion hynod lwyddiannus ar waith sy'n hyrwyddo lles a bywyd iach disgyblion.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda iawn trwy'r cwricwlwm, ac ymweliadau â lleoedd fel y 'Pwll Mawr' i archwilio'r dreftadaeth codi glo yng Nghymru. Defnyddir sesiynau tiwtorial mewn dosbarthiadau a gwasanaethau yn effeithiol iawn i archwilio hawliau plant, yn y wlad hon, a thramor.

Mae strategaethau hynod effeithiol ar waith i reoli ymddygiad. Mae staff yn gyson o ran atgyfnerthu parch a chyfrifoldeb. Maent yn cymhwyso strategaethau ymddygiad

cadarnhaol yn gyson ar draws yr ysgol ac yn delio â sefyllfaoedd heriol yn dda iawn. Er mwyn datblygu dealltwriaeth disgyblion o ymddygiadau priodol tuag at ei gilydd a pherthnasoedd, mae'r ysgol wedi datblygu "enfys perthynas" hynod greadigol. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o siarad, ymddiriedaeth a chyffyrddiad priodol yn effeithiol iawn.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o ymyriadau therapiwtig i hyrwyddo iechyd a lles disgyblion. Mae hyn yn cynnwys defnyddio'r pwll hydrotherapi a'r ystafell synhwyraidd. Mae nyrsys yr ysgol yn gofalu am anghenion meddygol o ddydd i ddydd y disgyblion yn dda. Maent yn rhoi cyngor defnyddiol i staff ar nifer o faterion yn gysylltiedig ag iechyd disgyblion, gan gynnwys cynllunio a chyd-gyflwyno'r cwricwlwm addysg rhyw a pherthnasoedd. Mae staff yn gweithio'n effeithiol iawn gyda gweithwyr proffesiynol o ystod eang o asiantaethau arbenigol i gefnogi anghenion meddygol ac iechyd cymhleth y disgyblion. Maent yn rhoi sylw da i'r cyngor gan gydweithwyr iechyd ac fe gaiff hyn effaith gadarnhaol ar ddatblygiad a phresenoldeb disgyblion yn yr ysgol.

Ceir cysylltiadau cryf â rhieni a gofalwyr. Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi eu mewnbwn ac yn ymgynghori'n eang ar faterion pwysig fel datblygu'r polisi e-ddiogelwch. Mae'r ysgol yn darparu cyngor ac arweiniad defnyddiol iawn i rieni a gofalwyr ar ystod o faterion fel rheoli anghenion bwyta, cysgu ac ymddygiadol disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu cyngor ac arweiniad o ansawdd uchel i ddisgyblion a'u rhieni a'u gofalwyr o ran dewisiadau opsiwn ym Mlwyddyn 9, opsiynau galwedigaethol priodol yn y coleg lleol, a chyrchfannau ôl-19 addas.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r tîm arolygu wedi tynnu sylw'r ysgol at ychydig iawn o fân broblemau.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae ethos eithriadol o ofalgar a chynhwysol Ysgol Tŷ Coch yn hyrwyddo ei gwerthoedd, sef parch, disgwyliadau uchel, her, uniondeb, brwdfrydedd a mwynhad (RECIPE) yn llwyddiannus iawn. Mae'r cynllun cydraddoldeb strategol eithriadol o dda yn cofnodi ethos a gwaith yr ysgol yn dda iawn. O ganlyniad, mae'r ysgol yn cydnabod, yn parchu ac yn dathlu pob disgybl unigol, ac amrywiaeth eu hanghenion cymhleth, yn eithriadol o dda. Caiff disgyblion o bob cefndir sydd â phob math o anghenion eu cynnwys yn llawn ym mhob agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Caiff prif adeilad yr ysgol ei gynnal yn dda. Mae arddangosfeydd mewn ystafelloedd dosbarth ac o gwmpas yr ysgol yn lliwgar a dychmygus, ac maent yn dathlu cyflawniadau disgyblion yn dda iawn. Mae staff yn gwneud defnydd creadigol iawn o ofod mewnol cyfyngedig yr ysgol i ddarparu amgylchedd ysgogol sy'n ffafriol i ddysgu. Fodd bynnag, mewn rhai o ardaloedd y prif safle, mae ystafelloedd dosbarth yn fach ar gyfer nifer y disgyblion a'r oedolion. Mae hyn yn cyfyngu ar ystod y gweithgareddau sydd ar gael i ddisgyblion.

Mae'r ysgol wedi gwneud addasiadau priodol i'r adeilad. Mae hyn yn cynnwys creu salon gwallt cwbl weithredol a chegin safon y diwydiant. Mae'r darpariaethau hyn yn gwella profiadau dysgu disgyblion hŷn yn eithriadol o dda.

Mae ardal allanol yr ysgol wedi cael ei hadnewyddu i safon uchel iawn yn ddiweddar. Mae'n darparu ardal ddysgu ysgogol ar gyfer disgyblion, gan gynnwys gardd lysiau ac ardaloedd chwarae yn yr awyr agored. Caiff yr ardaloedd dysgu a chwarae allanol croesawgar eu defnyddio'n dda yn ystod gwersi ac amser egwyl.

Mae safle Buarth y Capel yn darparu amgylchedd dysgu o ansawdd uchel, a gynhelir yn dda, sy'n bodloni anghenion disgyblion ag anhwylder y sbectrwm awtistig yn dda iawn.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Rhagorol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig ar gyfer yr ysgol. Mae wedi sefydlu tîm arweinyddiaeth effeithiol sy'n cyfleu disgwyliadau uchel a gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol, sy'n canolbwyntio ar ddarparu profiadau dysgu ystyrlon a difyr sydd wedi'u teilwra yn ôl anghenion disgyblion unigol. Mae staff a rhieni yn hynod gefnogol i'r weledigaeth hon a chyfeiriad strategol yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi gweithredu dull arloesol a hynod effeithiol o ddatblygu staff sy'n nodi medrau arwain ac ymddygiadau pob aelod o staff. Mae uwch arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i nodi staff sydd â'r medrau angenrheidiol i arwain ar brosiectau gwella'r ysgol ac adeiladu timau effeithiol. Mae'r dull hwn wedi bod yn hynod lwyddiannus o ran helpu'r ysgol i fynd i'r afael yn llwyddiannus â llawer o flaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol.

Mae gan staff ddealltwriaeth dda iawn o'u rolau ac maent yn gwybod sut mae eu gwaith yn cefnogi cyfeiriad strategol yr ysgol. Mae set o bolisïau cynhwysfawr a manwl, y mae staff yn eu deall yn dda, yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer gwaith yr ysgol. Mae'r corff llywodraethol yn adolygu'r rhain yn rheolaidd.

Ceir calendr manwl o gyfarfodydd sy'n cynnwys ffocws clir ar flaenoriaethau ar gyfer gwella'r ysgol, ac ar wella profiadau dysgu. Mae cyfarfodydd yn bwrpasol, a chanddynt agendâu clir, ac maent yn arwain at gamau gweithredu clir y mae arweinwyr yn eu hadolygu ac yn mynd i'r afael â nhw.

Mae'r ysgol wedi datblygu proses drylwyr i reoli perfformiad staff sy'n nodi targedau gwella i unigolion a'r ysgol gyfan yn dda. Mae staff yn adolygu cynnydd o ran bodloni'r targedau hyn yn rheolaidd. Mae uwch arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i nodi anghenion hyfforddi staff unigol ac ysgol gyfan. Mae aelodau o'r tîm arweinyddiaeth ehangach yn hynod werthfawrogol o'r hyfforddiant a'r mentora a gânt i ddatblygu eu medrau arwain. Ymdrinnir â thanberfformio gan staff mewn modd amserol a chefnogol.

Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni eu dyletswyddau statudol yn dda. Maent yn derbyn adroddiadau manwl gan uwch arweinwyr ac yn ymweld â'r ysgol yn aml. O ganlyniad, maent yn gwybod yn dda am waith yr ysgol ac yn darparu cymorth cryf a lefel uchel o her ar gyfer yr uwch dîm arweinyddiaeth.

**Gwella ansawdd: Da**

Dros gyfnod byr, mae arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau trylwyr i arfarnu perfformiad yr ysgol, a chynllunio'n llwyddiannus ar gyfer gwelliannau. Maent wedi ffurfio partneriaethau strategol gyda darparwyr tebyg i arfarnu gweithdrefnau sicrhau ansawdd yr ysgol, cymedroli ei barnau hunanarfarnu a gosod targedau ar gyfer gwella.

Mae staff ar bob lefel yn gwneud cyfraniadau hynod effeithiol at hunanarfarnu a chynllunio gwelliant ysgol. Er enghraifft, bu athrawon a staff cymorth dysgu yn gweithio gyda'i gilydd i lunio polisi addysgu a dysgu'r ysgol a chynllunio'r cwricwlwm newydd uchelgeisiol. Mae gweithio mewn partneriaeth fel hyn ar draws y tîm staff i sicrhau gwelliant yr ysgol yn nodwedd gref yn yr ysgol.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol iawn o ddata i fonitro ac adolygu'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion a'r cynnydd y maent yn ei wneud dros gyfnod. Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn darparu cofnod manwl a chywir, ar y cyfan, o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae'n defnyddio tystiolaeth uniongyrchol gynhwysfawr fel craffu ar waith disgyblion, arsylwadau gwersi a chraffu ar gynllunio athrawon. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o adroddiadau arsylwi gwersi yn canolbwyntio'n ddigon da ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ac mae arsylwadau arweinwyr o addysgu yn rhy hael ar y cyfan.

Mae aelodau o'r tîm arweinyddiaeth ehangach wedi dechrau arfarnu safonau disgyblion a'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer eu meysydd cyfrifoldeb. Mae'n ddyddiau cynnar iawn o ran datblygu hyn yn yr ysgol. Rhoddir llawer o gyfleoedd gwerthfawr i brif randdeiliaid fel disgyblion, rhieni a staff roi eu safbwyntiau. Caiff y rhain eu hystyried yn dda gan yr ysgol wrth bennu ei blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mae arweinwyr yn defnyddio canlyniadau hunanarfarnu i gynllunio strategaethau effeithiol ar gyfer gwella'r ysgol. Mae cynllun gwella cynhwysfawr a manwl yr ysgol wedi'i seilio'n agos ar y canfyddiadau yn yr adroddiad hunanarfarnu. Mae'r cynllun yn nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella, deilliannau bwriadedig, meini prawf llwyddiant clir, terfynau amser priodol a gweithdrefnau cadarn ar gyfer monitro cynnydd. Mae arweinwyr wedi arddangos blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella yn amlwg o gwmpas yr ysgol. Mae staff a disgyblion yn ychwanegu sylwadau defnyddiol at yr arddangosfeydd, gan roi sylwadau ar y modd y maent yn cyfrannu at gael yr ysgol i gyrraedd ei thargedau. Mae arweinwyr yn adolygu cynnydd yr ysgol yn rheolaidd o ran mynd i'r afael â'r blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau sy'n cyfrannu'n sylweddol at wella darpariaeth, safonau a lles.

Mae'r cydweithio arloesol ag ystod eang o fusnesau lleol a chenedlaethol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ansawdd yr amgylchedd dysgu yn yr awyr agored. Mae hyn yn cynnwys gwella'r ardaloedd chwarae ar gyfer disgyblion iau a chefnogi adnewyddu a datblygu canolfan deuluol sy'n cael ei chynllunio ar gyfer yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau hynod effeithiol â cherddorion proffesiynol, arlunwyr lleol ac arbenigwyr drama fel Cerddorfa Genedlaethol Cymru a chwmnïau theatr

mewn addysg. Mae'r profiadau hyn yn cefnogi datblygiad personol disgyblion, yn magu eu hyder ac yn gwella eu medrau cyfathrebu yn eithriadol o dda. Mae ystod eang y profiadau creadigol arloesol sydd ar gael yn yr ysgol yn nodwedd ragorol.

Mae gan yr ysgol berthnasoedd gweithio effeithiol gyda'r awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol. Mae gan uwch arweinwyr yn Ysgol Tŷ Coch rôl arweiniol mewn hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd datblygiad proffesiynol ar gyfer athrawon newydd gymhwyso ac athrawon sy'n newydd i anghenion addysgol arbennig ar draws y consortiwm. O ganlyniad, mae athrawon sydd newydd eu penodi a darpar arweinwyr canol yn yr ysgol hefyd yn elwa ar gyfleoedd gwerthfawr i arsylwi a rhannu arfer orau gyda chydweithwyr mewn ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig lleol.

Mae gan yr ysgol drefniadau sefydledig ar gyfer cymedroli gwaith disgyblion. Mae staff yn gweithio'n agos iawn gyda chydweithwyr o ysgolion arbennig eraill ar safoni gwaith. Mae hyn yn sicrhau bod asesiadau athrawon a phrosesau yn gadarn ar draws yr ysgol. Mae gan yr ysgol gysylltiadau defnyddiol gydag ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd lleol. Mae'r cysylltiadau hyn yn galluogi disgyblion, yn enwedig y rheiny sy'n fwy abl, i ddefnyddio cyfleusterau cwricwlwm arbenigol, fel labordy gwyddoniaeth.

Ceir cysylltiadau cryf iawn gyda rhieni a gofalwyr. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n llwyddiannus trwy gylchlythyrau tymhorol, negeseuon testun a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae gan yr ysgol drefniadau sefydledig ar waith i gefnogi cyfnod pontio disgyblion i'r Cyfnod Sylfaen, ac yn ddiweddar, i safle Buarth y Capel. Mae hyn yn cynnwys blaen-ymweliadau, sesiynau rhagflas a chyfarfodydd addysgiadol gyda'r athrawon a'r gwasanaethau cymorth arbenigol. Caiff y trefniadau pontio esmwyth ac amserol i'r ysgol eu gwerthfawrogi'n fawr gan rieni a gofalwyr.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei staff a'i hadnoddau yn dda iawn. Mae ganddi ystod eang o staff sy'n meddu ar gymwysterau a phrofiad addas i gyflwyno'r cwricwlwm a bodloni anghenion iechyd cymhleth disgyblion. Mae uwch arweinwyr yn defnyddio staff yn effeithlon ac yn effeithiol i fodloni anghenion yr holl ddisgyblion. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd creadigol o brofiad a medrau staff i wella profiadau dysgu disgyblion ac ehangu'r cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn gysylltiedig â nifer o rwydweithiau proffesiynol defnyddiol. Mae staff yn rhannu arbenigedd ac arfer dda yn rheolaidd gyda chydweithwyr o ysgolion eraill. Mae bron pob un o'r athrawon yn elwa ar ymweld â, ac arsylwi, arfer orau yn Ysgol Tŷ Coch ac ar draws y consortiwm rhanbarthol. Mae hyn wedi arwain at welliannau nodedig yn null yr ysgol o asesu.

Mae'r pennaeth, rheolwr y swyddfa a'r llywodraethwyr yn monitro'r gyllideb yn ofalus ac yn sicrhau bod penderfyniadau ariannol yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o grantiau i wella safonau a lles disgyblion. Er enghraifft, mae menter yr ysgol i ddatblygu medrau lleferydd ac iaith disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar safonau.

Yng ngoleuni'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Mae’n dynodi’r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Don’t know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 60 | 60<br>100%<br>94% | 0<br>0%<br>3% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 60 | 56<br>93%<br>83% | 3<br>5%<br>9% | 1<br>2%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 60 | 58<br>97%<br>92% | 1<br>2%<br>3% | 1<br>2%<br>4% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 60 | 56<br>93%<br>92% | 0<br>0%<br>4% | 4<br>7%<br>5% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 60 | 60<br>100%<br>91% | 0<br>0%<br>6% | 0<br>0%<br>3% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 60 | 59<br>98%<br>93% | 0<br>0%<br>4% | 1<br>2%<br>4% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 59 | 59<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>1% | 0<br>0%<br>2% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 60 | 60<br>100%<br>94% | 0<br>0%<br>3% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw i'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 60 | 46<br>77%<br>64% | 4<br>7%<br>19% | 10<br>17%<br>17% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 59 | 56<br>95%<br>91% | 1<br>2%<br>5% | 2<br>3%<br>4% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 60 | 59<br>98%<br>79% | 0<br>0%<br>14% | 1<br>2%<br>7% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 60 | 57<br>95%<br>83% | 0<br>0%<br>12% | 3<br>5%<br>6% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

Mae’n dynodi’r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 36 | 27 | 8 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 75% | 22% | 3% | 0% | | |
| | | 77% | 20% | 2% | 1% | | |
| My child likes this school. | 36 | 31 | 4 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 86% | 11% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 19% | 1% | 1% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 36 | 31 | 5 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | 81% | 18% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 36 | 24 | 10 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 67% | 28% | 3% | 0% | | |
| | | 68% | 28% | 3% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 36 | 21 | 14 | 0 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 58% | 39% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 38% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 36 | 27 | 7 | 1 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 75% | 19% | 3% | 0% | | |
| | | 76% | 23% | 1% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 35 | 23 | 11 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. |
| | | 66% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 68% | 30% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 35 | 16 | 13 | 4 | 0 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 46% | 37% | 11% | 0% | | |
| | | 53% | 36% | 8% | 3% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 36 | 31 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | 77% | 21% | 1% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 36 | 30 | 5 | 0 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 83% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | 70% | 28% | 1% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 36 | 30 | 4 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 83% | 11% | 0% | 0% | | |
| | | 76% | 21% | 1% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 36 | 18 | 17 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 47% | 3% | 0% | | |
| | | 72% | 25% | 3% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 36 | 22 | 11 | 3 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 61% | 31% | 8% | 0% | | |
| | | 68% | 26% | 5% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 36 | 27<br>75% | 8<br>22% | 1<br>3% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 77% | 20% | 2% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 36 | 20<br>56% | 13<br>36% | 2<br>6% | 1<br>3% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 59% | 36% | 4% | 1% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 36 | 23<br>64% | 10<br>28% | 0<br>0% | 0<br>0% | 3 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 67% | 32% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 32 | 12<br>38% | 6<br>19% | 0<br>0% | 1<br>3% | 13 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 51% | 36% | 10% | 3% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 34 | 22<br>65% | 10<br>29% | 1<br>3% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 70% | 26% | 3% | 1% | | |
| The school is well run. | 35 | 31<br>89% | 3<br>9% | 1<br>3% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 77% | 20% | 2% | 1% | | |

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Ms Margaret Elisabeth Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Mr Anthony Mulcahy | Arolygydd Tîm |
| Mr Richard Tither | Arolygydd Tîm |
| Mrs Delyth Gray | Arolygydd Tîm |
| Mr Huw Davies | Arolygydd Tîm |
| Ms Gwen Lloyd Aubrey | Arolygydd Lleyg |
| Mrs Susan Lynne Painter | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mr David Jenkins (Pennaeth) | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed.  Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn.  Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau ADY

**ADDLl**:  anawsterau dysgu dwys a lluosog

**ADHD**:  anhwylder gorfywiogrwydd diffyg canolbwyntio

**ADP**:  anawsterau dysgu penodol, yn cynnwys dyslecsia

**ADY**:  anghenion dysgu ychwanegol

**ASA**:  Anhwylder y Sbectrwm Awtistig, sy’n cynnwys Syndrom Asperger

**AYA**:  adnodd ychwanegol yr athro

**AYECh**:  Anawsterau Ymddygiadol, Emosiynol a Chymdeithasol

**CY**:  Cod Ymarfer

**NAS**:  nam amlsynhwyraidd

**NC**:  nam ar y clyw

**NG**:  nam ar y golwg